AMGUEDDFA CYMRU



# Cymru…

## Adnodd athrawon oriel

*amgueddfa.cymru/dysgu/*


Yn yr oriel hon gallwch edrych ar hanes Cymru o sawl safbwynt, gan rannu eich teimladau a’ch profiadau chi. Cewch gamu i’r gorffennol trwy eitemau gwych o’n casgliadau, a lleisiau’r bobl oedd yn ymwneud â nhw.

Nid oes un ffordd i archwilio'r oriel felly gwnewch yn siŵr eich bod yn paru teitl pob tudalen yn yr adnodd hwn â'r teitl ar yr arddangosfa benodol rydych chi'n ei archwilio.



Mae gan yr oriel hon daith 360 ar gael ar-lein am ddim. Mae hyn yn golygu y gellir defnyddio'r adnodd hwn ar-lein yn hytrach nag yn bersonol.

Mae'r ddolen i'r daith 360 isod.




AMGUEDDFA CYMRU


Dewiswch y dangosydd

# Cymru...

a'r Neanderthaliaid




cefn gwlad



a brwydr yr iaith



rhan o rwydwaith



Llywelyn a Glyndŵr



AMGUEDDFA CYMRU

a'i llefydd sanctaidd



a'r Llychlynwyr



a'r Rhufeiniaid



dan gysgod rhyfel




a'r wisg Gymreig



cofiwch Dryweryn




AMGUEDDFA CYMRU

# Cymru...
## a'r Neanderthaliaid

**Themâu...**
*Tarddiad ac esblygiad dyn, Archaeoleg*



Pwy oedd yn byw yng Nghymru 230,000 o flynyddoedd yn ôl? Mae'r dannedd yn y casyn hwn yn perthyn i fachgen Neanderthalaidd. Daeth ei olion i'r fei yn Ogof Pontnewydd yng ngogledd-ddwyrain Cymru, ynghyd ag olion Neanderthaliaid eraill. Hyd yn hyn, dyma'r unig ddannedd ffosil Neanderthal i ddod i'r fei ar dir mawr Prydain.

Dant babi yw'r dant ar y chwith, a dant ôl parhaol sydd ar y dde. Mae hyn yn dangos i ni fod y bachgen bach tua 8 a hanner mlwydd oed yn marw. Mae maint, siâp ac ôl traul y dannedd yn ein helpu i wybod beth oedd oedran y plentyn yn marw, ac yn dangos mai bachgen oedd e.

Bu'r Neanderthaliaid yn dod i Gymru am gyfnod maith tan iddynt ddiflannu tua 30,000 o flynyddoedd yn ôl. Dim ond ers 34,000 o flynyddoedd mae pobl fel ni yma. Ond, mae tua 2% o'n DNA ni yn perthyn i'r Neanderthaliaid, sy'n awgrymu fod y ddwy rywogaeth wedi paru â'i gilydd.

## Trafodaeth...

- *A ydych chi'n meddwl bod Neanderthaliaid a'r bod dynol modern wedi paru â'i gilydd?*
- *Pam ydych chi'n meddwl y gwnaeth y Neanderthaliaid farw allan?*
- *A fyddai gennych chi unrhyw beth yn gyffredin â rhywun Neanderthalaidd?*

### Adnoddau cysylltiedig...

*Molar Neanderthalaidd*



### Adnoddau cysylltiedig...

*Neanderthaliaid naddion*



dychwelyd


AMGUEDDFA CYMRU

# Cymru...
cefn gwlad

**Themâu...**

*Marwolaeth, Credoau, Cymuned, Amaethyddiaeth, Archaeoleg*

Mae hanes Cymru o ffermio defaid yn dyddio’n ôl i gymunedau ffermio Neolithig Cynnar. Gellir gweld olion un o ffermwyr cyntaf Cymru yn yr adran hon, ochr yn ochr ag adluniad o ben dynol Neolithig.







AMGUEDDFA CYMRU

Roedd yn byw tua 5,700 o flynyddoedd yn ôl, pan oedd y coetir gwyllt a arferai orchuddio ardaloedd eang yn cael ei glirio i greu tir agored i fagu defaid. Yn ogystal â newid tirwedd naturiol Cymru drwy dorri coetir, adeiladodd y cymunedau hyn feddrodau cymunedol mawr hefyd, sydd i'w gweld hyd heddiw.

Cafodd yr olion yn y casyn hwn eu claddu mewn beddrod siambr ym Mhenywyrlod, ger Talgarth yn y Canolbarth. Byddai wedi cael ei gladdu yma am mai dyma ei filltir sgwâr. Roedd ei olion yn gymysg ag esgyrn aelodau eraill y gymuned, rhai ohonynt yn dangos nad oedd bywyd yn heddychlon o hyd. Roedd gan un o'r bobl a gladdwyd ochr yn ochr â'r ffermwr cynnar ben saeth yn ei asen.







AMGUEDDFA CYMRU

# Trafodaeth...

- *A oes gan Gymru ddyfodol amaethyddol?*
- *A oes modd adnabod ffermio Neolithig Cynnar, yn ôl safonau ffermio heddiw?*
- *A fyddai Ffermwr Neolithig Cynnar yn adnabod ei 'filltir sgwâr' heddiw?*
- *Pam ydym ni'n ei alw yn ffermwr? Beth arall allai fod?*
- *Pam ydym ni'n meddwl ei fod yn perthyn i'r lle hwn?*
- *A allwn ni gymryd straeon archaeolegol fel cynrychioliadau cwbl gywir o fywyd cynhanesyddol?*


## Hefyd, ewch i...

*Tai Crwn Bryn Eryr o Oes yr Haearn*



## Adnoddau cysylltiedig...

*Beddau cyntedd Oes y Cerrig yng Nghymru*



dychwelyd

AMGUEDDFA CYMRU

# Cymru...
## a'i llefydd sanctaidd

**Themâu...**

*Credoau, Caethwasiaeth, Archaeoleg*



Rhoddion i'r dyfroedd

2,000 o flynyddoedd yn ôl, roedd Llyn Cerrig Bach, Ynys Môn, yn fan cysegredig.

Dros gannoedd o flynyddoedd, roedd pobl yn taflu eu meddiannau i mewn i'w ddyfroedd. Roedd arfau, darnau o gerbydau rhyfel, offer a pheiriau yn cael eu hoffrymu i dduwiau ac ysbrydion. Mae haneswyr Rhufeinig yn dweud wrthym fod Ynys Môn yr adeg honno yn gadarnle offeiriaid y Derwyddon.

Cafodd gwrthrychau'r Oes Haearn a arddangosir eu canfod ar wely Llyn Cerrig Bach. Darganfuwyd dros 150 o wrthrychau wrth i ganolfan awyr RAF y Fali gael ei hymestyn ar gyfer awyrennau bomio Americanaidd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Un o'r gwrthrychau a arweiniodd at y darganfyddiad oedd caethgadwyn Rufeinig. Gan feddwl mai sbwriel ydoedd, defnyddiodd y gweithwyr y gaethgadwyn i lusgo'r cerbydau allan o'r gors!

Pan gysylltwyd â'r archaeolegydd Syr Cyril Fox yn yr Amgueddfa Genedlaethol, sylweddolodd bwysigrwydd Llyn Cerrig Bach fel man cysegredig hynafol.



Copl o Sêl Gyntaf Harri IV

AMGUEDDFA CYMRU

## Copl o Sêl Gyntaf Harri IV



# Trafodaeth...

- *A allwn ni ymddiried yn adroddiadau ysgrifenedig y Rhufeiniaid am y derwyddon?*
- *Pwy yn eich barn chi oedd yn gwneud yr offrymau hyn? Sut mae arferion crefyddol wedi newid ers yr*
- *Oes Haearn? A ydym ni'n dal i roi offrymau i mewn i ddŵr?*
- *Pa le sy'n arbennig i chi?*
- *Sut deimlad fyddai gwisgo'r gaethgadwyn?*
- *A allwn ni farnu cymdeithasau hynafol am gael caethweision?*
- *Sut gwnaeth yr Amgueddfa benderfynu pa wrthrychau i'w harddangos o'r 150 a*
- *ganfuwyd yn y llyn?*

## Hefyd, ewch i...

*Eglwys Sant Teilo*



## Adnoddau cysylltiedig...

*Cymru Oes yr Haearn*



AMGUEDDFA CYMRU

dychwelyd

# Cymru...
## a'r Llychlynwyr

**Themâu...**

*Cymru a Mewnfudo,*
*Goresgyniadau yng Nghymru,*
*Diwydiant a Masnach, Archaeoleg*



Esgyrn y bachgen oedd rhwng 9 ac 14 mlwydd oed

Esgyrn dyn 25-35 oed a bachgen 9-14 oed yw'r rhain. Daethpwyd o hyd iddynt wedi'u claddu y tu allan i Lanbedr-goch ar Ynys Môn. Maent yn dyddio'n ôl i tua'r flwyddyn 900.

Roedd Llanbedrgoch yn ganolfan fasnachu bwysig ar adeg pan oedd Ynys Môn dan warchae'r Llychlynwyr. Credwyd mai cyrff pobl frodorol o Gymru oeddent, ond mae dadansoddiad gwyddonol diweddar yn awgrymu mai Llychlynwyr oedden nhw. Taflwyd y cyrff ar ben ei gilydd, gan godi cwestiynau ynghylch sut gwnaethant farw a phwy a'u claddodd. Ceir tystiolaeth o anafiadau a ddigwyddodd adeg eu marwolaeth, sy'n codi hyd yn oed mwy o gwestiynau.

AMGUEDDFA CYMRU

Mae nifer o gladdfeydd wedi'u darganfod y tu allan i'r ganolfan fasnachu yn Llanbedr-goch. Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am y berthynas rhwng pobl frodorol Cymru a'r Llychlynwyr?

## Trafodaeth...

- *A yw pobl Cymru yn fwy croesawgar heddiw?*
- *Beth ddigwyddodd i'r unigolion hyn yn eich barn chi?*
- *A ellid cyfiawnhau defnyddio trais?*
- *Pa mor bwysig yw masnach yng Nghymru heddiw?*

### Hefyd, ewch i...

*Tai Crwn Bryn Eryr o Oes yr Haearn*



### Sesiynau cysylltiedig...

*Celtiaid (Gweithdy Rhithiol)*



dychwelyd

# Cymru...

## a'r Rhufeiniaid

**Themâu...**

*Goresgyniadau yng Nghymru, Hunaniaeth Gymreig, Archaeoleg*

Roedd rhaid cael byddin o dros 30,000 o filwyr i oresgyn Cymru. O adroddiadau a ysgrifennwyd gan y Rhufeiniaid, rydym yn gwybod bod rhai llwythi brodorol wedi gwrthsefyll y goresgynwyr Rhufeinig yn gadarn. Ymddengys bod rhai eraill wedi ildio'n fwy cyflym ac wedi croesawu'r manteision a ddaeth gyda'r Rhufeiniaid.

Adroddiadau ysgrifenedig Rhufeinig yw man cychwyn hanes Cymru. Cawn ein cipolwg cyntaf o'r llwythi a oedd yn bodoli yma trwy lygaid Rhufeinig.



103 o ddarnau arian

AMGUEDDFA CYMRU

Mae’r gwrthrychau yn y casyn hwn yn cynnwys arian, baner byddin, llechen ysgrifennu a chwpan efydd a fewnforiwyd o’r Eidal. Mae’r celc o wrthrychau brodorol a Rhufeinig yn dangos y ddau ddiwylliant gwahanol yn dod at ei gilydd. Ar ochr arall y casyn mae maen melin, a oedd yn cael ei weithio gan asyn i falu’r grawn yn flawd.

## Trafodaeth...

- *A allwn ni ymddiried yn adroddiadau ysgrifenedig Rhufeinig y llwythi brodorol?*
- *Faint wnaeth bywyd yr unigolyn brodorol cyffredin newid ar ôl goresgyniad y Rhufeiniaid?*
- *Pa agweddau ar y Gymru fodern a ddechreuodd yn ystod y cyfnod Rhufeinig?*

### Adnoddau cysylltiedig...

*Mytholeg Rufeinig*



### Sesiynau cysylltiedig...

*Gwersyll Rhufeinig (Gweithdy Rhithiol)*




# Cymru...
## a brwydr yr iaith

**Themâu...**
*Hunaniaeth Gymreig, Cymru Annibynnol, Protestio*

A hithau'n iaith Geltaidd, mae'r Gymraeg yn perthyn i'r Gernyweg, Llydaweg a Gaeleg. Yng nghysgod y Saesneg, mae'r Gymraeg wedi ymdrechu'n galed i oroesi, er bod pobl wedi bod yn siarad yr iaith am o leiaf 1,500 o flynyddoedd. Fodd bynnag, rhwng uno Cymru a Lloegr ym 1536 a Deddf yr Iaith Gymraeg ym 1967, nid oedd gan yr iaith unrhyw statws swyddogol. Yn y pen draw, cyflawnwyd statws swyddogol drwy brotestio ac ymgyrchu.


Arysgrif Ladin yn coffáu Tegernacus



Arysgrif Ladin yn coffáu Tegernacus

AMGUEDDFA CYMRU

# Cymru...
## a brwydr yr iaith

**Themâu...**

*Hunaniaeth Gymreig, Cymru Annibynnol, Protestio*



Côt ddenim

Roedd yn ffasiynol i addurno dillad gyda symbolau fel ffurf o ymgyrchu yn y 1970au. Un enghraifft o hyn yw'r crys yn y casyn ar gyfer yr adran hon sydd wedi'i addurno â symbolau mudiadau'r Gymraeg, Cymdeithas yr Iaith ac Adfer. Er gwaethaf llwyddiant ymgyrchoedd a mudiadau o'r fath, mae yna bethau o hyd nad yw siaradwyr Cymraeg yn gallu'u gwneud yn eu mamiaith.

Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi parhau i ostwng ar y cyfan. Er hyn, mae rhai ardaloedd, fel Caerdydd, lle mae'r iaith yn cynyddu.

# Trafodaeth...

- *A ddylai pawb yng Nghymru allu siarad Cymraeg?*
- *A ddylai dysgu Cymraeg mewn ysgolion yng Nghymru fod yn orfodol?*
- *A ddylai pob ysgol yng Nghymru fod yn ddwyieithog?*
- *A oes gwerth i siarad Cymraeg?*
- *A oes rhaid i chi siarad Cymraeg i gael eich ystyried yn Gymro/Gymraes?*
- *A yw ieithoedd Celtaidd eraill mewn sefyllfa debyg i'r Gymraeg?*
- *Pam ydych chi'n credu bod nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd wedi cynyddu lle mae ardaloedd eraill wedi gweld gostyngiad?*

## Hefyd, ewch i...

*Ysgol Maestir*



## Adnoddau cysylltiedig...

*eLyfr: Ysgol Fictoraidd yng Nghymru*



AMGUEDDFA CYMRU

dychwelyd

# Cymru...
rhan o rwydwaith

**Themâu...**
*Diwydiant a Masnach, Technoleg, Trafnidiaeth, Cyfoeth a Thlodi, Archaeoleg*



Celc Capel Isaf

Ar donfeddi a thrwy wifrau mae syniadau newydd yn ein cyrraedd heddiw. Ond yn Oes yr Efydd, y môr oedd yn cysylltu cymunedau Ewrop.

Teithiai llongau arfordiroedd yr Iwerydd, o Sbaen i Iwerddon. Ar hyd y ffordd roeddent yn cyfnewid metelau, technoleg a syniadau. Mae'r gwrthrychau aur sydd wedi dod i'r fei ar hyd arfordiroedd Ewrop yn dangos hyn i ni.

Yn y casyn, mae gwrthrychau aur ac efydd statws uchel o Oes yr Efydd.

AMGUEDDFA CYMRU

Darlun prin o long Oes yr Efydd yw Powlen Caergwrle. Credwn mai tonnau yw'r patrwm igam-ogam ar y gwaelod a rhwyfau yw'r trionglau hir. Roedd symbol y llygad yn amddiffyn morwyr. Tarianau'r morwyr dewr yw'r cylchoedd.

Gwnaed y bowlen â siâl o Dorset, tun o Gernyw ac aur o Gymru neu Iwerddon. Cafodd ei rhoi ger afon Alun sy'n llifo i afon Dyfrdwy ac, yn y pen draw, i Fôr Iwerddon.



Powlen Caergwrle

AMGUEDDFA CYMRU



Lwnwla Llanllyfni


AMGUEDDFA CYMRU

# Trafodaeth...

- *Sut oedd pobl yn masnachu nwyddau heb arian?*
- *Sut oedd pobl yn arddangos eu cyfoeth cyn bod aur yn cael ei ddefnyddio?*
- *Pam ydych chi'n meddwl fod y gwrthrychau gwerthfawr hyn yn cael eu claddu yn y ddaear?*
- *Beth yw'r peth mwyaf gwerthfawr ydych chi'n berchen arno?*
- *Sut mae nwyddau'n cael eu cludo i Gymru heddiw?*
- *Beth yw manteision ac anfanteision mewnforio nwyddau o bob cwr o'r byd?*
- *Pa nwyddau sy'n cael eu hallforio o Gymru heddiw?*

## Hefyd, ewch i...

*Bryn Eryr Iron Age Roundhouses*



## Hefyd, ewch i...

*Tudor Merchant's House*



AMGUEDDFA CYMRU

dychwelyd

# Cymru...

## Llywelyn a Glyndŵr

**Themâu...**

*Cymru Annibynnol, Hunaniaeth Gymreig, Brenhiniaeth, Rhyfel, Credoau, Cyfoeth a Thlodi, Archaeoleg*

I lawer, Llywelyn Fawr yw'r mwyaf o dywysogion Cymru. Fe'i ganwyd tua'r flwyddyn 1173. Trwy ryfel a diplomyddiaeth, bu'n tra-arglwyddu yng Nghymru rhwng 1194 a 1240.

Ym 1283, daeth Cymru gyfan dan reolaeth Lloegr yn dilyn concwest Edward I. Ym 1301, datganwyd mab Edward, sef Edward o Gaernarfon, yn Dywysog Cymru. Dechreuodd hyn y traddodiad o roi'r teitl Tywysog Cymru i etifedd gwrywaidd brenin/brenhines Lloegr.



Nobl aur
Harri IV

Ganwyd Owain Glyndŵr tua 1359, i wlad a oedd dan reolaeth y Saeson. Arweiniodd wrthryfel cenedlaethol i adennill annibyniaeth Cymru. Ef oedd y Cymro olaf i gael ei alw'n Dywysog Cymru.

Mae'r gwrthrychau yn y casys hyn yn dangos arfau, arian, eitemau crefyddol a selnodau brenhinol. Un o'r uchafbwyntiau yw'r pen o unigolyn brenhinol wedi'i gerfio. Credir mai wyneb Llywelyn Fawr ydyw.



Copl o Sêl Gyntaf Harri IV


Ceiniogau arian, hanner dimeiau a ffyrlingau o
Lan-faes, Ynys Môn.
1200au-1300au
Coins from the time of Llywelyn
Silver pennies, cut halfpennies and farthings from
Llan-faes, Anglesey.
1200s-1300s

Pen â choron

# Trafodaeth...

- *A fyddai bywyd bob dydd pobl yng Nghymru'r Oesoedd Canol wedi'i effeithio gan bwy oedd yn llywodraethu drostynt?*
- *A fyddai pobl yng Nghymru'r Oesoedd Canol wedi cefnogi'r rhyfeloedd hyn?*
- *A fyddai pobl yng Nghymru'r Oesoedd Canol wedi hidio ai Cymro oedd Tywysog Cymru?*
- *A ddylai Tywysog Cymru fod yn Gymro?*
- *A ddylai'r teulu brenhinol presennol gadw swydd Tywysog Cymru?*
- *A ddylai fod teulu brenhinol, a phwy ddylai dalu amdano?*
- *A ddylai Cymru fod yn annibynnol?*

## Hefyd, ewch i...

*Llys Llywelyn – Neuadd Ganoloesol*



## Adnoddau cysylltiedig...

*Oes y Tywysogion*



# Cymru...
## dan gysgod rhyfel

**Themâu...**
*Rhyfel, Lles Iechyd Meddwl, Credoau*

Bu tua 272,000 o Gymry yn ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Lladdwyd 32,000 ohonynt. Roedd gan bron i bob pentref, tref a phlwyf restr o'r rheini a fu farw. Collwyd cenhedlaeth o ddynion ifanc. I'r rheini a ddychwelodd o'r ffosydd, roedd bywyd wedi newid am byth. Roedd yna glwyfau dyfnach na'r rhai corfforol, a doedd effaith y creithiau meddyliol hynny ddim eto'n glir.




AMGUEDDFA CYMRU




Pincws

Trwy gynllun y Fintai Gymorth Wirfoddol (VAD) rhoddwyd hyfforddiant sgiliau nyrsio sylfaenol i wirfoddolwyr. Roedd eu hangen mewn ysbytai cynorthwyol i helpu milwyr wedi'u hanafu a oedd yn dychwelyd o faes y gad. Y Fintai Gymorth Wirfoddol gyntaf yng Nghymru oedd mintai Sain Ffagan. Mae un o'r casys yn dangos eitemau a ffotograffau o'r ysbyty yn Sain Ffagan, ac mae'n cynnwys gwrthrychau a gafodd eu creu gan filwr yn ystod ei amser yn yr ysbyty. Yn ystod y Rhyfel, roedd cymunedau'n codi arian i gefnogi'r milwyr. Byddent yn anfon parseli bwyd, sigaréts a sanau i'r ffosydd. Roedd digwyddiadau 'Croeso Gartref' yn cael eu trefnu i filwyr a oedd adre ar seibiant.

# Cymru...
dan gysgod rhyfel

**Themâu...**

*Rhyfel, Lles Iechyd Meddwl, Credoau*

Ar flaen y gad, roedd caplaniaid neu ‘padres’ y fyddin fel tadau i’r milwyr ifanc. Roeddent yn eu cysuro a’u harwain drwy erchylltra’r rhyfel. Gellir gweld gwrthrychau o flaen y gad a’r ffrynt cartref yma hefyd.



# Trafodaeth...

- *A oes cyfiawnhad dros ryfel fyth?*
- *Sut byddai profiad pobl yn ystod y Rhyfel yn effeithio ar eu hiechyd meddwl?*
- *Gwirfoddolwyr oedd nyrsys cynorthwyol yn bennaf, ac nid oeddent yn cael eu talu, a oedd hyn yn deg?*
- *Sut mae gwneud gwrthrychau yn helpu milwr i wella?*
- *Sut byddai milwr yn teimlo wrth dderbyn pecyn o gartref?*
- *Pa ran fyddai crefydd wedi'i chwarae ym mywyd milwr ar flaen y gad?*
- *Ym mha ffordd y newidiodd cymdeithas ar ôl y Rhyfel?*

## Hefyd, ewch i...

*Cofeb Ryfel Trecelyn*




## Adnoddau cysylltiedig...

*Ffrynt Cartref: Cymru yn yr Ail Ryfel Byd*



# Cymru...

a'r wisg Gymreig

**Themâu...**

*Symbolau, Traddodiadau ac Ystrydebau Cymreig, Hunaniaeth Gymreig*




Cofroddion tsieina

Er ei bod yn edrych yn draddodiadol, cafodd y wisg Gymreig ei chreu i hyrwyddo Cymru yn oes Fictoria. Yn seiliedig ar wisg menywod cefn gwlad Cymru, caiff ei chreu o elfennau traddodiadol fel brethyn (defnydd traddodiadol). Gwelir y wisg Gymreig fel symbol clasurol o Gymru ac fe'i defnyddiwyd i farchnata Cymru i dwristiaid a oedd yn teithio i'r wlad ar y rheilffyrdd.

AMGUEDDFA CYMRU

Daeth y ddelwedd o'r Ladi Gymreig yn boblogaidd ar gardiau post a chofroddion tsieina hyd yn oed. Ymgais oedd hyn i bortreadu Cymru fel lle croesawgar ac iachus. Heddiw, gwisgir y wisg Gymreig i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar 1 Mawrth.




Postcards for tourists
Sold in Wales, these popularised the image of the Welsh costume as an icon.
1920s-1950s
Was the Welsh Costume invented by Augusta Hall, Lady Llanover?
Some historians suggest that it was. She was an enthusiast for all things Welsh. How did the wife of a Monmouthshire landowner influence the entire Welsh nation?
In 1836 she published an essay encouraging the women of Wales to support the woollen industry by wearing Welsh flannel.
But she doesn't mention the need to adopt a uniform 'national' costume.
About 180 years ago

# Trafodaeth...

- *Beth yw'r symbolau ystrydebol Cymreig heddiw?*
- *A yw gwisgo'r rhain i gêm rygbi yn beth gwael i Gymru?*
- *Pa mor real yw'r wisg hon?*
- *A oes gymaint o barch i'r wisg Gymreig heddiw ag ydoedd yn oes Fictoria?*
- *A yw'r wisg Gymreig yn gynrychiolaeth ddilys o hunaniaeth Gymreig?*

## Hefyd, ewch i...

*Melin Wlân Esgair Moel*



## Adnoddau cysylltiedig...

*Cwestiynau Cyffredin: Y Wisg Gymreig*



dychwelyd

AMGUEDDFA CYMRU

# Cymru...
## cofiwch Dryweryn

**Themâu...**

*Perchenogaeth adnoddau, grym Cymru yn y Senedd, Protest*

Ym 1965, boddwyd Capel Celyn, yng Nghwm Tryweryn ger y Bala, i greu cronfa ddŵr newydd i gyflenwi dŵr yfed i Lerpwl. Yr arwydd ffordd yn y casyn oedd arwydd gwreiddiol y pentref, cyn i'r gronfa gael ei chreu. Rhoddwyd yr arwydd hwn, a llestri'r capel, i'r Amgueddfa pan adawodd y trigolion eu pentref.

Gorfodwyd y trigolion i adael eu cartrefi, a rhwygwyd y gymuned. Dinistriwyd cyfanswm o 800 erw o dir gan gynnwys deuddeg fferm, ysgol y pentref, swyddfa'r post a'r capel i wneud lle i'r gronfa.



Gwrthwynebodd y mwyafrif o Aelodau Seneddol Cymru'r mesur, ond fe'i pasiwyd gan lywodraeth Geidwadol y dydd. Cafwyd protestiadau drwy Gymru ben baladr, gan gynnwys gwrthdystiadau yn Lerpwl a defnyddio ffrwydron i ddifrodi'r argae yn ystod y gwaith adeiladu.




We realise the hurt of 40 years
ago when Tryweryn Valley was
transformed into a reservoir

Mae Tryweryn wedi dod yn symbol eiconig yng Nghymru, ac i rai mae'n cynrychioli diffyg grym y wlad.

## Trafodaeth...

- *A ddylai dŵr Cymru gael ei ddefnyddio gan ddinasoedd Lloegr?*
- *A yw Cymru'n elwa ar ei hadnoddau naturiol?*
- *Sut byddech chi'n teimlo pe bai'n rhaid i chi adael eich cartref? A oes gan Gymru lais digon cryf*
- *yn senedd San Steffan heddiw?*
- *A ddysgwyd gwersi o foddi Capel Celyn?*

### Hefyd, ewch i...

*Ffermdy Cilewent*



### Adnoddau cysylltiedig...

*Ymgyrchu a Phrotest*




dychwelyd

AMGUEDDFA CYMRU

## Mwy o Adnoddau Addysgu Oriel...







*amgueddfa.cymru/dysgu/*